



Annwyl Rieni / Ofalwyr

12.04.24

Croeso cynnes nôl i bawb ar ddechrau tymor yr Haf. Gobeithio cafodd pawb wyliau a seibiant da dros y Pasg.

Calendr 2024

Gweler dyddiadau a digwyddiadau gweddill y flwyddyn academaidd ar y Calendr 2024 – gallai'r rhain newid oherwydd amgylchiadau neu dywydd annisgwyl. Byddwn yn ychwanegu rhagor o weithgareddau, digwyddiadau a theithiau ysgol wrth i'r tymor fynd ymlaen.

Gwaith y Disgyblion

Gwelwch ar y Calendr bydd cyfle i chi ddod i weld gwaith a llyfrau'r disgyblion nes at ddiwedd y tymor. Bydd cyfle i chi ddewis mynychu yn ystod y dydd neu ar ôl ysgol ar nos Lun 1 Gorffennaf. Mwy o fanylion i ddilyn.

Nodiadau Atgoffa

- Sicrhewch fod gennym **rifau ffôn (cartref a symudol) a chyfeiriadau cyfoes**
- Os yw eich plentyn yn anhwylyd, cysylltwch â'r ysgol a gadewch neges ar y llinell absenoldeb cyn 9.00yb ar bob diwrnod o salwch
- Os oes unrhyw newidiadau i drefniadau diwedd dydd, rhwch wybod i ni trwy lythyr neu e-bost. Mewn argyfwng, a fydddech cystal â ffonio swyddfa'r ysgol cyn 2.30yp

Addysg Gorfforol / Gwisg

Gofynnir i ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gwisgo'u cit AG ar ddiwrnodau AG. Cit AG yr ysgol yw esgidiau addas, gwaelodion tracwsg tywyll a thop gwyn. Gofynnwn yn garedig i chi lynu wrth y lliwiau hyn a pheidio â chaniatáu dillad llachar, lliwgar. Diolch hefyd am gefnogi'r profiadau dysgu awyr agored gydag hen sgidiau neu welingtons ar y diwrnodau penodedig. Sylwch nad yw logo'r ysgol yn orfodol ar unrhyw eitemau gwisg ysgol. Mae gennym hefyd wisg ysgol rad ac am ddim sydd mewn cyflwr da – dewch i bori drwy'r rheiliau ym mhrif Dderbynfa'r ysgol a chymerwch beth sydd ei angen arnoch.

Ymadawyr Blwyddyn 6

Caniateir ymadawyr Blwyddyn 6 i wisgo 'hoodie' diwedd flwyddyn yn ystod tymor yr Haf, os rydyn yn dymuno gwneud. Mae'r 'hoodies' lliwgar yma ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 yn unig. Disgwylir i bob disgybl arall wisgo gwisg ysgol llawn gyda siwmpwr, cardigan a / neu 'hoodie' gwyrdd.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, p'un a yw'n addysgiadol neu'n fugeiliol, peidiwch ag oedi cyn e-bostio swyddfa'r ysgol ar admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru.

Diolch am eich cefnogaeth parhaus

Mrs S Jayne

Pennaeth



Dear Parents / Carers

12.04.24

A warm welcome back to all at the start of the Summer Term. We hope you all had a good holiday and Easter break.

Calendar 2024

Please see dates and activities for the rest of the academic year on the 2024 Calendar - these could be subject to change due to unforeseen circumstances or weather. We will be adding further school activities, events and trips as the term progresses.

Pupils' Work

You'll notice on the Calendar there will be an opportunity near the end of the term for you to see the pupils' work and books. There will be an opportunity to either attend during the day or after school on Monday 1 July. Further details to follow.

Reminders

- Please ensure we have **up to date phone numbers (home and mobile) and addresses**
- If your child is unwell, please contact the school and leave a message on the absence line before 9.00am on each day of illness
- If there are any changes to end of day arrangements, please inform us by letter or email. In an emergency, please phone the school office before 2.30pm

PE / Uniform

Pupils are asked to attend school wearing their PE kit on PE days. School PE kit is suitable footwear, dark tracksuit bottoms and a white top. We kindly ask that you adhere to these colours and **not** allow bright, colourful clothing. Thank you also for supporting the outdoor learning experiences with old shoes or wellies on the designated days. Please note that the school logo is not mandatory on any uniform items. We also have free, preloved and good condition uniform – please come and browse the rails at the school main Reception and take what you need.

Year 6 Leavers

Year 6 Leavers are permitted to wear an end of year Leavers' hoodie during the Summer Term, if they wish to do so. These colourful hoodies are for Year 6 pupils only. All other pupils are expected to wear full school uniform with green jumpers, cardigans and / or hoodies.

If you require any assistance, whether educational or pastoral, please do not hesitate to email the school office on admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru.

Thank you for your continued support.

Mrs S Jayne

Pennaeth